



Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru

Rheoliadau i gyflwyno proses gymeradwyo dau gam ar gyfer mabwysiadwyr

Dyddiad cyhoeddi: 3 Hydref 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 9 Ionawr 2019

Trosolwg	Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich safbwyntiau ar ddwy gyfres newydd o reoliadau mabwysiadu: Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2019 a Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2019. Bydd y rheoliadau newydd yn diwygio Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005. Daw'r rheoliadau newydd i rym ym mis Gorffennaf 2019.
Sut i ymateb	Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy gwblhau a dychwelyd, erbyn hanner nos ar y dyddiad cau, ffurflen ymateb yr ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon. Dylid anfon yr ymateb at:
	<p>Y Gangen Gweithredu Deddfwriaeth Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru Adeiladau'r Goron Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ</p> <p>Fel arall mae ffurflen ymateb yr ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan [http://wales.gov.uk/consultations/?lang=cy] a gellir ei dychwelyd atom, erbyn hanner nos ar y dyddiad cau, drwy e-bost at RISCAct2016@llyw.cymru.</p>
Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig	<p>Mae fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael ar gais.</p> <p>Ymgynghoriad : Fframwaith Rheoleiddiol Newydd ar gyfer Gwasanaethau Mabwysiadu (4 Hydref 2018 i 27 Tachwedd 2018) https://beta.llyw.cymru/rheoliadau-gwasanaethau-maethu</p>
Manylion cyswllt	Am wybodaeth bellach:
	<p>Y Gangen Gweithredu Deddfwriaeth Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio Adeiladau'r Goron Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ</p>
	e-bost: RISCAct2016@llyw.cymru
	ffôn: 0300 0604400

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a anfonwch fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn eu harfer i brosesu'r data personol hwn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â sut maent yn arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion sy'n rhan o'r ymgynghoriad hwn neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Pan fydd Llywodraeth Cymru'n cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yna mae'n bosibl y caiff y gwaith hwn ei gomisiynu i'w gyflawni gan drydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Dim ond fel rhan o gontract y gwneir unrhyw waith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn pennu gofynion llym ar gyfer prosesu a diogelu data personol.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, mae enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y person neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i ni gyhoeddi eich enw neu gyfeiriad, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich ymateb. Yna byddwn yn eu golygu cyn eu cyhoeddi.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd o'n cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os cyhoeddir eich manylion fel rhan o ymateb i'r ymgynghoriad, yna bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Cedwir unrhyw ddata arall amdanoch gan Lywodraeth Cymru am ddim mwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawl:

- i gael eich hysbysu am y data personol sydd ganddynt amdanoch a chael mynediad ato
- i fynnu ein bod yn cywiro anghysondebau yn y data hwnnw
- (mewn rhai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu prosesu
- (mewn rhai amgylchiadau) i gael eich data wedi'i 'ddileu'.
- (mewn rhai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar ddiogelu data.

Am fanylion pellach am y wybodaeth a ddelir gan Lywodraeth Cymru ac a ddefnyddir ganddi, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan GDPR, gweler y manylion cyswllt isod:
Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Manylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth yw:
Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

1. Cyflwyniad

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf crëwyd fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, wrth i ddau ddarn nodedig o ddeddfwriaeth gael eu pasio – Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014¹ a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016². Y prif nod yw diwygio a chydgrynhoi cyfreithiau gofal cymdeithasol, er mwyn gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chefnogaeth a'u gofalwyr.

Fel rhan o'r rhaglen hon i ddiwygio cyfreithiau gofal cymdeithasol, mae Llywodraeth Cymru yn manteisio ar y cyfle i foderneiddio'r broses a ddefnyddir i asesu a chymeradwyo pobl sy'n dymuno mabwysiadu plentyn fel darpar fabwysiadwyr. Ar yr un pryd, mae ymgynghoriad arall, ar wahân ac ategol³ yn ystyried, ochr yn ochr â'r broses diwygiadau rheoleiddiol mabwysiadu, gweithrediad y Dull Adolygu Annibynnol mewn cysylltiad â mabwysiadu. Mae'r system hon yn adolygu casgliadau paneli pan fyddant yn gwrthod cais unigolyn i fod yn fabwysiadwydd, neu pan fyddant yn penderfynu pennu amodau neu i beidio adnewyddu cymeradwyaeth o'r fath.

2. Yr ymgynghoriad hwn

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn o 3 Hydref 2018 a daw i ben am hanner nos ar 9 Ionawr 2019.

Ceisir eich barn ar ddwy gyfres o Reoliadau drafft, sy'n diwygio Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005⁴ ('rheoliadau 2005'). Mae'r rhain yn llywodraethu'r broses asesu a chymeradwyo ar gyfer darpar fabwysiadwyr yng Nghymru.

Yn gryno, mae Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2019 yn:

- (a) cyflwyno proses dau gam ar gyfer asesu a chymeradwyo darpar fabwysiadwyr.

Darperir ar gyfer hyn yn rheoliad drafft 7, sy'n disodli Rhan 4 – Dyletswyddau Asiantaeth Fabwysiadu o ran Darpar Fabwysiadwydd – yn Rheoliadau 2005.

- (b) ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau mabwysiadu gyfeirio manylion darpar fabwysiadwyr i Gofrestr Fabwysiadu Cymru ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo, a manylion plant y penderfynwyd y dylid eu lleoli gyda hwy i'w mabwysiadu, o fewn uchafswm cyfnod o un mis ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud.

Mewn cysylltiad â'r plant, darperir ar gyfer hyn yn rheoliad drafft 4 sy'n mewnosod rheoliad 19A – Gwybodaeth i'w darparu i'w nodi ar y Gofrestr

¹ http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf

² http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/pdfs/anaw_20160002_we.pdf

³ https://beta.llyw.cymru/fframwaith-rheoleiddio-newydd-ar-gyfer-gwasanaethau-mabwysiadu?_ga=2.228319573.930523315.1538416321-208840103.1538416321

⁴ http://www.legislation.gov.uk/wsi/2005/1313/pdfs/wsi_20051313_mi.pdf

Fabwysiadu – yn Rheoliadau 2005. O ran y darpar fabwysiadwyr, darperir ar gyfer hyn o fewn rheoliad 30G newydd Rhan 4 ddiwygiedig.

- (c) yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau mabwysiadu drefnu i benodi 'person awdurdodedig' i weithredu fel tyst ar gyfer cydsyniad rhiant neu warcheidwad i leoli neu fabwysiadu plentyn yn eu gofal, pan fydd y rhiant neu'r gwarcheidwad yn byw y tu allan i Gymru a Lloegr (gan gynnwys dramor).

Darperir ar gyfer hyn yn rheoliad drafft 6 sy'n mewnosod rheoliad 20A - Personau a awdurdodwyd i dystio cydsyniad lleoli ar gyfer mabwysiadu - i Reoliadau 2005.

Bydd y Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad negyddol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2019 drafft yn gyfres fyrrach o Reoliadau diwygio sy'n ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau mabwysiadu, wrth asesu addasrwydd cwplwl i fabwysiadu plentyn, roi ystyriaeth briodol i'r angen am sefydlogrwydd a pharhauster yn eu perthynas. Mae'r Rheoliadau hyn yn ategu'r gyfres arall ond byddant yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad negyddol y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r ddwy gyfres o Reoliadau yn tynnu ar bwerau, yn bennaf o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 ('Deddf 2002').

Bydd eich ymatebion i'r ymgynghoriad yn helpu i hysbysu ein hystyriaeth o'r Rheoliadau terfynol. Ein bwriad yw dadansoddi'r ymatebion dros y gaeaf ac ystyried a oes angen unrhyw newidiadau cyn cyflwyno'r Rheoliadau gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn y gwanwyn yn 2019. Bwriedir iddynt ddod i rym yn ystod haf 2019.

3. Yr achos dros newid

Y rheoliadau presennol sy'n cynnwys cymeradwyo darpar fabwysiadwyr (gan gynnwys paneli, asesiadau, cymeradwyaethau, adolygiadau a therfyniadau) yw Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 ('Rheoliadau 2005').

(a) Y broses gymeradwyo

Rydym yn dymuno gwneud newidiadau i'r broses gymeradwyo yng Nghymru, yn yr un modd â'r newidiadau a wnaed yn Lloegr yn 2013. Cafodd Rhan 4 Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 2005⁵ (a oedd yn ymdrin â dyletswyddau asiantaethau mabwysiadu i ddarpar fabwysiadwyr yn Lloegr), ei disodli gan ddarpariaeth o fewn Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Diwygiadau Amrywiol) 2013⁶. Newidiodd hyn y broses gymeradwyo mewn cysylltiad â Lloegr, gan ganiatáu proses dau gam.

Mae ein Grŵp Technegol Mabwysiadu, fu'n cwrdd pedair gwaith rhwng mis Medi a Thachwedd 2017, ac yn benodol y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, wedi gofyn i Lywodraeth Cymru ddeddfu i gyflwyno proses dau gam tebyg i Gymru. Yn ei hanfod,

⁵ http://www.legislation.gov.uk/uksi/2005/389/pdfs/uksi_20050389_en.pdf

⁶ http://www.legislation.gov.uk/uksi/2013/985/pdfs/uksi_20130985_en.pdf

byddai'r newid hwn yn galluogi asiantaeth fabwysiadu i wneud penderfyniad cynnar i 'beidio parhau' gyda chais llawn unigolyn i ddod yn fabwysiadydd os oedd wedi casglu gwybodaeth - er enghraifft o adroddiad meddygol yn dangos problem ddifrifol - sy'n dangos yn glir nad oedd yr unigolyn penodol hwn yn berson addas i fabwysiadu plentyn. Byddai'n golygu, mewn achosion o'r fath, na fyddai rhwymedigaeth gyfreithiol bellach i barhau i ystyriaeth panel llawn o gais sy'n amlwg yn anaddas cyn y gellir ei ddiystyru.

Manteision gwneud y newid hwn yw:

- bydd y broses o ystyried darpar fabwysiadwyr ar gyfer plentyn penodol o'u teulu eu hunain a phobl gysylltiedig yn symud ymlaen yn gyflymach ac yn fwy effeithlon, gyda llai o oedi ac ansicrwydd i'r plentyn o ganlyniad i hynny;
- ni fydd gobeithion a disgwyliadau darpar fabwysiadwyr, y mae'n amlwg na fydd eu cais yn llwyddo, oherwydd anhawster amlwg a difrifol gyda'u cais, yn cael eu codi'n ormodol;
- bydd gweithrediad cyffredinol y broses gymeradwyo yn cael ei symleiddio a'i gwneud yn fwy effeithlon, gan sicrhau arbedion i amser staff ac amser y panel wrth baratoi ac ystyried ceisiadau.

(b) Atgyfeiriadau i'r Gofrestr Fabwysiadu

Yr ail egwyddor yr ydym yn dymuno ei gwneud drwy'r Rheoliadau drafft yw lleihau'r terfyn amser presennol sy'n ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau mabwysiadu atgyfeirio manylion darpar fabwysiadwyr i Gofrestr Fabwysiadu Cymru ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo, a phlant y gwnaed penderfyniad y dylent gael eu lleoli i'w mabwysiadu.

Yr uchafswm presennol yw tri mis, sy'n caniatáu amser i gysylltiadau lleol a rhanbarthol posibl gael eu hystyried cyn darparu'r wybodaeth hon yn genedlaethol drwy'r Gofrestr. Fodd bynnag, rydym yn dymuno lleihau'r amser hwn ac i'r gofyniad ddatgan bod angen darparu'r wybodaeth angenrheidiol i'r Gofrestr cyn gynted â phosibl a dim mwy nac un mis ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud. Cyflwynwyd y cais am y newid hwn gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

Y bwriad yw y bydd pob plentyn sy'n aros ar leoliad mabwysiadol a phob darpar fabwysiadydd cymeradwy ar hyd a lled Cymru yn cael eu gosod ar y Gofrestr ar unwaith.

Bydd hyn yn cyflymu'r broses o baru plant â darpar fabwysiadwyr (ac felly'n lleihau'r hyd o amser y bydd plant yn aros) gan roi mynediad ar unwaith i system genedlaethol a fydd â'r amrediad mwyaf posibl o gysylltiadau o bob rhan o Gymru a lle gellir ystyried rhannau eraill priodol o'r DU. Dylai hyn arwain at hyd yn oed mwy o gydweiddiadau parhaus, o ansawdd da yn cael eu gwneud. Yn ogystal, bydd yn galluogi i'r system gyfan gael ei rheoli mewn ffordd fwy effeithiol ar y lefel strategol - er enghraifft, drwy nodi patrymau o anghenion penodol ymysg y plant neu grwpiau o frodyr a chwiorydd, a allai alw am ddulliau recriwtio pwrpasol ar gyfer mabwysiadwyr.

(c) Sefydlu ‘person awdurdodedig’

Y trydydd newid yr hoffem ei gyflwyno yw caniatáu i ‘person awdurdodedig’ weithredu fel tyst i gydsyniad rhiant neu warcheidwad i’r lleoliad (o dan adran 19 Deddf 2002) neu fabwysiadu (o dan adran 20 Deddf 2002) plentyn yn eu gofal, pan fydd y rhiant neu’r gwarcheidwad yn byw y tu allan i Gymru neu Loegr. Gwnaed newid tebyg yn Lloegr yn 2005, pan gafodd rheoliad 20A ei fewnosod yn Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 2005.

Rydym yn rhagweld y byddai person awdurdodedig o’r fath:

- yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn Ynad Heddwch
- y tu allan i’r DU,
 - person a awdurdodwyd gan y gyfraith leol i weinyddu llw
 - swyddog consylaidd Prydain
 - notari cyhoeddus
 - neu swyddog a gomisiynwyd yn unrhyw un o luoedd arfog rheolaidd y Goron

Yr un pryd, rydym yn manteisio ar y cyfle i esbonio – drwy reoliad drafft 5 – bod yn rhaid i asiantaeth fabwysiadu ofyn i CAF/CASS Cymru (ar ran Gweinidogion Cymru) benodi swyddog er mwyn cael cydsyniad i leoliad o’r fath neu fabwysiadu plentyn yn eu gofal dim ond pan fydd y rhiant neu’r gwarcheidwad yn byw yng Nghymru a Lloegr.

4. Crynodeb o’r gofynion newydd ar asiantaethau mabwysiadu o dan y broses dau gam

Rydym yn bwriadu disodli Rhan 4 Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 (‘Rheoliadau 2005’) gyda phroses dau gam newydd ar gyfer cymeradwyo darpar fabwysiadwyr.

Mae ein dull gweithredu un hybrid sy’n gwneud rhai newidiadau tebyg i’r rhai a wnaed yn Lloegr yn ddiweddar i gyflwyno proses dau gam, drwy ‘Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Diwygiadau Amrywiol) 2013 (‘Rheoliadau 2013’). Fodd bynnag, mae ein dull gweithredu yn wahanol mewn manau oherwydd ein bod wedi dewis cadw rhai elfennau pwysig o Reoliadau 2005.

Dangosir strwythurau’r Rhan 4 bresennol a’r Rhan 4 ddiwygiedig isod:

Rhan 4 Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005	Rhan 4 fel y’i diwygiwyd gan Reoliadau drafft Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2019
	Cam 1 – y broses cyn asesu Mae rheoliadau 21 i 27 (cam 1) yn gymwys pan fo person wedi hysbysu asiantaeth fabwysiadu ei fod am fabwysiadu plentyn a bo’r asiantaeth wedi hysbysu’r person hwnnw ei bod wedi penderfynu bwrw ymlaen â’r broses cyn asesu mewn cysylltiad ag ef.

21. Gofyniad i ddarparu cwnsela a gwybodaeth	21. Cofrestru diddordeb mewn mabwysiadu
22. Gofyniad i ystyried cais am asesiad o addasrwydd i fabwysiadu plentyn	22. Cynllun un darpar fabwysiadydd
23. Gofyniad i gynnal gwiriadau'r heddlu	23. Cofnod achos darpar fabwysiadydd
24. Gofyniad i hysbysu	24. Gofynion i ddarparu cwnsela, gwybodaeth a pharatoad ar gyfer mabwysiadu
25. Gofyniad i ddarparu paratoad ar gyfer mabwysiadu	25. Gofyniad i gynnal gwiriadau'r heddlu
26. Gweithdrefnau o ran gwneud asesiad	26. Gwybodaeth cyn asesu arall
27. Swyddogaeth y panel mabwysiadu	27. Penderfyniad cyn asesu
	Cam 2 – y penderfyniad asesu Mae rheoliadau 28 i 30G yn gymwys pan fydd y darpar fabwysiadydd, yn dilyn penderfyniad yr asiantaeth fabwysiadu y gallai'r darpar fabwysiadydd fod yn addas i fabwysiadu, wedi hysbysu'r asiantaeth o fewn chwe mis i'r penderfyniad hwnnw eu bod yn dymuno parhau i gam 2 y broses gymeradwyo.
28. Penderfyniad a hysbysiad gan yr asiantaeth fabwysiadu	28. Asesiad cam 2
29. Gwybodaeth sydd i'w hanfon at y panel adolygu annibynnol	29. Cynllun asesu darpar fabwysiadydd
30. Adolygiadau a therfynu cymeradwyaeth	30. Adroddiad darpar fabwysiadydd
	30A. Swyddogaethau'r panel mabwysiadu 30B. Penderfyniad a hysbysiad gan yr asiantaeth fabwysiadu 30C. Gwybodaeth sydd i'w hanfon at y panel adolygu annibynnol 30D. Adolygu a therfynu cymeradwyaeth 30E. Dyletswyddau'r asiantaeth fabwysiadu mewn achos adran 83 30F. Cymhwyso Rhan 4 gydag addasiadau i bersonau penodedig 30G. Atgyfeirio i'r Gofrestr Fabwysiadu - darpar fabwysiadwyr
31. Dyletswyddau asiantaeth fabwysiadu mewn achos adran 83 yn dilyn cymeradwyo darpar fabwysiadydd	31. Cynlluniau paru darpar fabwysiadydd

Mae rhai o'r gofynion newydd ar asiantaethau mabwysiadu wedi'u nodi isod:

- **Cynllun cam un darpar fabwysiadydd (Rheoliad 22 newydd)**

Mae rheoliad 22 newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r asiantaeth fabwysiadu baratoi cynllun ysgrifenedig, mewn ymgynghoriad â'r darpar fabwysiadydd, a fydd yn cynnwys gwybodaeth am eu rolau priodol yn y broses cam un. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwybodaeth am y cwnsela, gwybodaeth a pharatoadau ar gyfer mabwysiadu a ddarperir gan yr asiantaeth
- Y weithdrefn ar gyfer cynnal gwiriadau'r heddlu
- Manylion unrhyw hyfforddiant y mae'r darpar fabwysiadydd wedi cytuno ei wneud
- Gwybodaeth am rôl y darpar fabwysiadydd yn ystod cam 1
- Unrhyw amserlenni perthnasol
- Sut i wneud sylw neu gŵyn
- Unrhyw wybodaeth arall y mae'r asiantaeth yn credu sy'n berthnasol

- **Cofnod achos darpar fabwysiadydd (Rheoliad 23 newydd)**

Er bod y rheoliad hwn yn seiliedig ar reoliad 11 Rheoliadau 2005, rydym yn bwriadu cynnwys y gofynion mwy manwl, sy'n ymwneud â'r hyn y mae'n rhaid i gofnod achos darpar fabwysiadydd ei gynnwys, o reoliad 23 Rheoliadau 2013. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, unrhyw gynlluniau, asesiadau, adroddiadau, penderfyniadau ac adolygiadau perthnasol a gynhaliwyd mewn cysylltiad â'r darpar fabwysiadydd ac unrhyw un o'u harsylwadau mewn cysylltiad â hyn. Mae'r manylion hyn wedi'u rhestru ym mharagraff 1 (a) - (j) rheoliad 23 newydd.

- **Gwybodaeth cyn asesu arall a phenderfyniad cyn asesu (Rheoliadau 26 a 27 newydd)**

Mae rheoliad 26 newydd yn nodi'r wybodaeth cyn asesu y mae'n rhaid i asiantaeth fabwysiadu ei chasglu ac mae rheoliad 27 newydd yn datgan bod yn rhaid i asiantaeth fabwysiadu benderfynu, yng ngoleuni'r wybodaeth honno, a fydd y darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn. Mae'n rhaid gwneud y penderfyniad hwnnw o fewn dau fis i'r dyddiad pan hysbyswyd y darpar fabwysiadydd gan yr asiantaeth fabwysiadu eu bod wedi penderfynu i barhau â'r broses cyn asesu. Fodd bynnag, gallai'r asiantaeth oedi wrth wneud y penderfyniad hwnnw pan fydd yn fodlon bod rhesymau da dros wneud hynny neu ar gais y darpar fabwysiadydd.

- **Cynllun asesu darpar fabwysiadydd (Rheoliad 29 newydd)**

Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r asiantaeth fabwysiadu baratoi cynllun ysgrifenedig, mewn ymgynghoriad â'r darpar fabwysiadydd, a fydd yn cynnwys gwybodaeth am y weithdrefn ar gyfer asesu addasrwydd y darpar fabwysiadydd i fabwysiadu plentyn.

- **Penderfyniad a hysbysiad gan yr asiantaeth fabwysiadu (Rheoliad 30B newydd)**

Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaeth fabwysiadu benderfynu a yw darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu o fewn pedwar mis i'r dyddiad y bydd yr asiantaeth yn derbyn hysbysiad y darpar fabwysiadydd eu bod yn dymuno parhau â'r broses asesu. Gallai'r asiantaeth oedi wrth wneud y penderfyniad hwnnw pan fydd yr

asiantaeth o'r farn bod amgylchiadau eithriadol sy'n golygu na all wneud y penderfyniad hwnnw o fewn yr amser hwnnw neu ar gais darpar fabwysiadudd.

Yn unol â 30B(5)(c) pan fydd yr asiantaeth fabwysiadu o'r farn nad yw'r darpar fabwysiadudd yn addas i fabwysiadu plentyn, mae'n rhaid eu cynghori y gallant, o fewn 20 diwrnod gwaith i anfon yr hysbysiad o'r penderfyniad hwn, gyflwyno unrhyw sylwadau i'r asiantaeth neu wneud cais i Weinidogion Cymru am adolygiad gan banel adolygu annibynnol o'r penderfyniad cymhwysol. Mae'r uchafswm hwn o 20 diwrnod gwaith yn cael ei drosglwyddo o Reoliadau 2005, fodd bynnag, mae'r terfyn o fewn Rheoliadau 2013 wedi'u hystyngi i 40 diwrnod gwaith, yn Lloegr. Rydym yn bwriadu cynnal yr uchafswm presennol o 20 diwrnod gwaith, oherwydd mae hyn yn alinio hefyd â'r uchafswm o 28 diwrnod calendr ar gyfer ceisiadau tebyg a wneir mewn cysylltiad â phenderfyniadau a wneir gan asiantaethau maethu. Byddem yn croesawu eich safbwyntiau ynghylch a yw hyn yn rhesymol ai peidio.

- **Adolygu a therfynu cymeradwyaeth (Rheoliad 30D newydd)**

Er bod Rheoliadau 2005 yn datgan mai'r uchafswm cyfnod a ganiateir i adolygu cymeradwyaeth darpar fabwysiadudd yw dwy flynedd yng Nghymru ar hyn o bryd, mae Rheoliadau 2013 yn Lloegr yn pennu uchafswm o un flwyddyn yn dilyn cymeradwyaeth. Bydd rheoliadau newydd ar gyfer y gwasanaethau maethu hefyd yn pennu uchafswm o un flwyddyn ar gyfer adolygiadau cyfatebol. Felly, rydym yn bwriadu lleihau'r uchafswm cyfnod yng Nghymru i un flwyddyn, am resymau cysondeb a diogelu.

Adolygu Dyfarniadau'n Annibynnol

Mae nifer o ofynion yn codi o ganlyniad i'r Rheoliadau hyn o ganlyniad i weithredu'r broses ar gyfer cynnal adolygiad annibynnol o benderfyniadau cymhwysol ar gyfer mabwysiadu (a maethu) a elwir yn IRM. Mae gofynion craidd yr IRM wedi'u nodi yn Rheoliadau Adolygu Dyfarniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010⁷. Mae'r broses hon yn destun adolygiad yn awr ac mae'n ddarostyngedig i ymarfer ymgynghori ar wahân.⁸

Os bydd y system IRM bresennol yn cael ei newid neu ei diddymu, bydd angen newidiadau canlyniadol i'r Rheoliadau, er mwyn adlewyrchu'r system newydd, os o gwbl, neu ddileu cyfeiriadau at y broses adolygu bresennol.

Dylid nodi hefyd, o dan y broses dau gam newydd, na fyddai cais am gymeradwyaeth fel mabwysiadudd nad yw'n llwyddo i basio'r cam cyntaf neu'r 'cam cyn asesu' yn cynrychioli 'dyfarniad cymhwysol' at ddibenion Rheoliadau 2010. Pe cedwir yr IRM presennol, ni fyddai unigolyn sy'n aflwyddiannus yn y cam cyn asesu yn gallu atgyfeirio'r penderfyniad i banel annibynnol ei adolygu, a byddai ond yn gallu cyflwyno cwyn i'r asiantaeth fabwysiadu yn unol â gweithdrefn gwynion yr asiantaeth honno (a chyflwyno cais am adolygiad barnwrol o bosibl).

⁷ http://www.legislation.gov.uk/wsi/2010/746/pdfs/wsi_20100746_mi.pdf

⁸ https://beta.llyw.cymru/fframwaith-rheoleiddio-newydd-ar-gyfer-gwasanaethau-mabwysiadu?_ga=2.222527955.930523315.1538416321-208840103.1538416321

Gofynion ar asiantaethau mabwysiadu o dan broses dau gam.

Gweler rheoliad 7 drafft sy'n disodli Rhan 4 – Dyletswyddau Asiantaethau Mabwysiadu ar gyfer Darpar Fabwysiadwydd – yn Rheoliadau 2005

2. A yw'r gofynion newydd a roddir ar asiantaethau mabwysiadu yn briodol, yn ymarferol ac yn gymesur?

Esboniwch pam eich bod yn credu hyn:

Lleihau'r cyfnod mwyaf a ganiateir ar gyfer atgyfeirio manylion plentyn neu fabwysiadwydd i'r gofrestr fabwysiadu.

Mewn cysylltiad â phlentyn, gweler rheoliad 4 drafft sy'n mewnosod rheoliad 19A – Gwybodaeth i'w darparu i'w chofnodi ar y Gofrestr Fabwysiadu – i Reoliadau 2005. Mewn cysylltiad â darpar fabwysiadwyr, gweler rheoliad 30G newydd

3. A yw'n briodol i'r cyfnod mwyaf a ganiateir ar gyfer atgyfeirio'r wybodaeth hon gael ei leihau i o fewn mis i benderfyniad yr asiantaeth?

Cytuno

Tueddu i gytuno

Tueddu i anghytuno

Anghytuno

Rhowch eich rhesymau:

Galluogi ‘person awdurdodedig’ i weithredu fel tyst i gydsyniad rhiant neu warcheidwad.

Gweler rheoliad 6 drafft sy’n mewnosod rheoliad 20A – Personau sydd wedi’u hawdurdodi i fod yn dyst i gydsyniad i leoli ar gyfer mabwysiadu – i Reoliadau 2005

4. A yw’n briodol, pan fo rhiant neu warcheidwad yn byw y tu allan i Gymru neu Loegr, i ni ehangu’r categorïau o bobl a all gyflawni’r swyddogaeth hon?

Rhowch eich rhesymau yn y blwch isod a chynnwys unrhyw sylwadau y gallech fod eisiau eu gwneud am y categorïau o bobl yr ydym yn cynnig y dylid eu galluogi i gyflawni’r rôl hon.

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

Rhowch eich rhesymau:

Cwestiynau Eraill

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddeall a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn cael effaith ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig. Nodweddion gwarchoddedig yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

5. Ydych chi'n credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim?

Esboniwch:

6. Ydych chi'n credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim?

Esboniwch:

Rydym yn awyddus i glywed eich barn chi ar yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar

- i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a
- ii) sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

7. Pa effeithiau ydych chi'n credu fyddai'n cael eu creu? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?

Esboniwch:

8. Esboniwch hefyd sut ydych chi'n credu y gellir llunio neu newid y polisi arfaethedig er mwyn:

- i) sicrhau effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg,
- ii) sicrhau nad oes unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydynt wedi'u trafod yn benodol yma, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi